Cofnodion y Cyfarfod
a gynhaliwyd ddydd Sadwrn 28 Mehefin 2014 yn y Fenni

2014.17 *Addoli Agoriadol a Chroeso*

Darllenwyd 27.25 o Qf&p, gan John Punshon, yn ystod ein haddoli agoriadol. Mae'n bleser gennym gael croesawu 39 o Gyfeillion yma heddiw fel a restrir ar y daflen bresenoldeb.

Mae'r Cyfeillion canlynol wedi'u penodi gan eu Cyfarfodydd Ardal i fod yn bresennol:

Canolbarth Cymru:	Tom Brown
Gogledd Cymru:	Catherine James, Catherine Farrel, Frances Voelcker
De Cymru:	Carolyn Sansom
Gororau'r De:	David a Kate Binney

Gill Branch a Hilary Beynon yw ein henaduriaid heddiw.

2014.18 *Calon a The Friend*

Mae Christine Trevett wedi cytuno i ysgrifennu adroddiad am y cyfarfod hwn ar gyfer *The Friend* ac i *Calon*.

2014.19 Adroddiad: Cyngor Cynrychioladol *Quaker Life*

Rydym wedi clywed adroddiad Liz Butler am Gyngor Cynrychioladol Quaker Life 4ydd–6ed Ebrill 2014. Y testun oedd Datblygu Cymuned y Crynwyr. Gofynnwyd ymlaen llaw i gyfranogwyr ddewis y gweithdai roeddent am eu mynychu – dewisodd Liz Addoli a Gweinidogaeth gan fod ei chwrdd ei hun fel arfer yn dawel ar wahân i *Gynghorion ac Ymholiadau* bob hyn a hyn. O gyrddau tawel gan mwyaf y deuai pobl eraill yn y grŵp hwnnw, er, mewn un achos, byddai'r weinidogaeth yn ymylu ar drafodaeth. Mae angen arweiniad gan henaduriaid weithiau ac mae angen i Gyfeillion newydd fod yn ymwybodol o'r hyn sy'n dderbyniol. Mae'n bwysig ymbaratoi i'r cwrdd.

Hefyd, dewisodd Liz Weddi ac Ymarfer Ysbrydol a bu Cyfeillion yn trafod beth yw ystyr gweddi a gwahanol ffyrdd o weddi. Mae adnoddau ar gael i helpu ein hymarfer ysbrydol, gan gynnwys *Deepening the Life of the Spirit* a ddatblygwyd gan Ginny Wall sy'n cyflwyno gwahanol fathau o ymarfer.

Yn bwysicaf oll, bu Cyfeillion yn rhannu eu straeon ac yn gwrando ar ei gilydd, gan roi cefnogaeth a syniadau i'w gilydd mewn ffordd Grynwraidd gariadus, fywiog, hynod ysbrydol a hwyliog. Drwy rannu beth sy'n gweithio'n dda, gallwn dyfu yn ein cymunedau**.**

Un o'r cyhoeddiadau lu a drafodwyd yn y sesiwn adnoddau oedd *Sharing our Meetings' Stories*, adroddiad sy'n seiliedig ar straeon croestoriad eang o Gyrddau'r Crynwyr yng ngwledydd Prydain, sy'n rhoi dealltwriaeth o fywyd cyrddau heddiw. Maent yn dangos y pethau sy'n maethu ein cyrddau ac yn dwysáu a chryfhau ein cymunedau.

Mae Cyngor Cynrychioladol *Quaker Life* yn darparu cysylltiad rhwng ein Cyfarfodydd Ardal a Phwyllgor Canolog *Quaker Life* gan anelu at ddatblygu a chyfoethogi cymuned y Crynwyr**. Anfonwn yr adroddiad hwn i bob cyfarfod gan fod yr adnoddau'n fuddiol ac yn ddiddorol.** Rydym yn diolch i Liz am anfon yr adroddiad hynod ysbrydoledig hwn.

2014.20 Diwrnodau Rhanbarthol y Cyneuwyr (Kindlers) a Dioddefiadau

Mae'r Cyneuwyr wedi cyflwyno dau weithdy yng Nghymru eleni – roedd y cyntaf yn Nhŷ Cwrdd y Cyfeillion Llandrindod (ddydd Sadwrn 5 Ebrill) i Gyfeillion o Dde Cymru a Gororau'r De. Y testun ar gyfer y digwyddiad hwn oedd **Labordai'r Ysbryd: Gartre: Yn y Cwrdd**. Brian Holley, Emma Roberts ac Alec Davison oedd y siaradwyr. Mae adroddiad Julia Lim wedi cael ei ddarllen a'i anfon at y Cyneuwyr.

Cynhaliwyd yr ail ddigwyddiad ddydd Sadwrn 21 Mehefin yn Neuadd y Pentre Ganllwyd ger Dolgellau ar gyfer Cyfeillion o Gyfarfodydd Ardal Gogledd a Chanolbarth Cymru. Y testun y tro hwn oedd **Ffrwythau'r Ysbryd**. Y siaradwyr oedd David Bowgett ac Alec Davison. Mae adroddiad Jean Campbell Leith wedi cael ei ddarllen.

Bydd dau **Gynulliad Rhanbarthol Dioddefiadau** fel rhan o'r symudiad i feithrin cysylltiadau rhwng y Cyfarfodydd Ardal a Dioddefiadau ledled Cyfarfod Blynyddol Prydain. Maent yn cael eu hanelu at unrhyw un sydd am ddeall sut mae Crynwriaeth yn gweithio. Bydd digwyddiad Gogledd/Canolbarth Cymru ar 18 Hydref yn Neuadd Gymunedol Glantwymyn a bydd digwyddiad De Cymru/ Gororau'r De ar 22 Tachwedd yn Nhŷ Cwrdd y Cyfeillion Caerdydd. **Anfonir taflenni am y rhain cyn bo hir.**

Be' nesa

Mae ein trysorydd wedi dweud wrthym fod y digwyddiadau hyn yn costio. Roedd Woodbrooke-ar-y-lôn yn arbennig o ddrud, ac roedd digwyddiad y Cyneuwyr yng Ngogledd/Canolbarth Cymru yn ddrud oherwydd y rhent uchel i'r neuadd. Fe'n hatgoffir, cyn i Woodbrooke-ar-y-lôn, byddai Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru yn cynnal penwythnosau preswyl i ddarparu maeth ysbrydol. Digwyddiadau i bob oedran yw'r penwythnosau preswyl ac felly, anogir Cyfeillion Ifainc i fynychu cyfarfodydd eraill. Efallai ei bod yn bryd cynnal digwyddiad preswyl arall. Bydd Frances Voelcker, cynullydd y pwyllgor trefniadau, yn trafod â chydweithwyr ar y pwyllgor y posibilrwydd o gynnal cynulliad preswyl. Cynaliadwyedd fyddai un thema bosibl. Rydym yn gofyn i'r pwyllgor trefniadau adrodd yn ôl i'n cyfarfod ym mis Hydref.

2014.21 *Cyfarfod Dioddefiadau*

Bu'r Cyfarfod Dioddefiadau 7 Mehefin 2014 yn ystyried nifer o faterion, gan gynnwys cynllun drafft gan y Grŵp Fframwaith Hirdymor – gwahoddir Cyfeillion i gymryd rhan yn yr ymgynghori – gofynnir bod Cyfarfodydd Ardal yn ystyried y cwestiynau canlynol:

a. Beth y mae Crynwyr yn ei ddal yn gyffredin?

b. Pa egwyddorion a phrosesau sy'n gwneud ein gwaith yn "Grynwraidd' i ni ac i eraill?

c. Pa strwythurau cenedlaethol fyddai'n galluogi'ch cyfarfod i ffynnu?

d. Beth yw'ch gweledigaeth 5-mlynedd i'ch cwrdd lleol ac i Grynwyr yng ngwledydd Prydain ac i'r byd?

Mae Cyfarfod Ardal Caerloyw wedi anfon cofnod ynglŷn â'r sefyllfa bresennol yn yr Wcráin. Bu Cyfarfod Blynyddol Pwyllgor Ymgynghori Byd-eang y Cyfeillion (Adran Ewrop a'r Dwyrain Canol) yn ystyried y sefyllfa yn Nwyrain Ewrop gan gytuno i ategu a hyrwyddo awydd Misha Roshchin o Gyfarfod Misol Moscow a Roland Rand o Grŵp Addoli Tallin i ymweld â Dwyrain yr Wcráin. Mae grŵp cefnogi wedi'i ffurfio. Anogir Cyfeillion i gefnogi'r mater hwn, drwy weddi yn ogystal ag yn ariannol.

Clywodd Cyfeillion gan Sarah Coote am Gyngor Materion Ewropeaidd y Crynwyr; eu prif feysydd llafur yw heddwch, perthynas yr UE ag Israel a Phalesteina, hawliau dynol, cyfiawnder troseddol a chynaliadwyedd. Yn arbennig, bu Sarah yn siarad am y gwaith y mae'r Cyngor yn ei wneud ar Bartneriaeth Masnach a Buddsoddi Trawsatlantig (TTIP) a gofynnir i Gyfeillion ymgyfarwyddo â hyn.

Mae Cofnod 36 (Caergaint) Grŵp Ymrwymiad yn dirwyn ei waith i ben yn y Cyfarfod Blynyddol eleni. Mae dogfen strategaeth wedi'i chyhoeddi, 'Argymhellion Gweithredu – dod yn gymuned gynaliadwy garbon isel'. Mae'r grŵp wedi adnabod yr angen am arweinyddiaeth a goruchwyliaeth, er mwyn sicrhau bod Crynwyr ym Mhrydain yn parhau ac yn adeiladu ar y cynnydd a gafwyd eisoes a rhoddodd y Cyfarfod Dioddefiadau ei gefnogaeth i gyfnod nesaf y gwaith.

Derbyniwyd cofnodion gan sawl Cyfarfod Ardal am ffracio, symud ymlaen ar gynaliadwyedd, cymorth i farw a gofal diwedd oes, addysg, Consyrn y Crynwyr ynglŷn â Diddymu Arteithio a'r datganiad diweddar ar Anghydraddoldeb Economaidd.

Mae'r Pwyllgor Enwebiadau Canolog wedi gofyn am awgrymiadau ynglŷn â ffyrdd y gallai Cyfeillion Ifainc ddod i ymwneud a'r broses enwebu. Gyfeillion, mae angen i ni fod yn anturus yn ein syniadaeth am enwebiadau! Diolchwn i David Butler am ei adroddiad.

2014.22 ***Israel/Palesteina a'r Crynwyr yng Nghymru***

Rydym wedi derbyn y cofnod canlynol gan Gwrdd Bae Colwyn:

Gofynnwn i Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru ystyried a fyddai o fudd sefydlu rhwydwaith o Grynwyr yng Nghymru a hoffai ffurfio cysylltiadau cyfeillgarwch â Phalesteiniaid yn y Tiriogaethau Meddianedig a Gaza.

Teimlwn ei bod yn bwysig gwella cefnogaeth i Balesteina a grwpiau Iddewig sy'n gweithio dros heddwch yn Israel. Gallai'r rhwydwaith hwn fod ar ffurf e-byst a gwefannau. Gallai cyrddau lleol ystyried sefydlu grŵp tebyg i'r un yn Llanidloes. Mae gan Gyfarfod Ardal De Cymru sawl Hebryngwr Eciwmenaidd a gobeithiwn y gallai mwy o Gyfeillion wirfoddoli ac rydym yn atgoffa Cyfeillion fod yr Hebryngwyr Eciwmenaidd yn hapus i ymweld â chyfarfodydd ardal/cyrddau lleol i siarad am eu profiadau yn y Tiriogaethau Meddianedig.
Gofynnwn i'r clerc gynnwys rhestr o Grwpiau Heddwch Israel yn y cofnod hwn.

2014.23 ***Adroddiad yr Eiriolwyr dros Waith â Phlant a Phobl Ifainc***

Mae Eiriolwyr Plant a Phobl Ifainc yn eu lle ar gyfer ein holl gyfarfodydd ardal, yn gweithio â chyrddau lleol i hyrwyddo cynnwys plant a phobl ifainc yn ein haddoli a'n tystiolaeth yn ein cyfarfodydd ardal a'n cyrddau lleol.

Yng ngogledd Cymru, mae Angela wedi bod wrthi'n datblygu Diogelu yn y cyfarfod ardal gan gydweithio â'r cydlynydd i gyflawni hyn; trefnwyd diwrnod hyfforddi ganddynt ym mis Chwefror. Cynhaliodd Bae Colwyn weithdy ym mis Chwefror i helpu cyfeillion i ymbaratoi am newydd-ddyfodiad yn y cyfarfod.

Yng nghanolbarth Cymru does fawr o blant mewn cyfarfodydd o hyd. Mae Veronica wedi trefnu hyfforddiant Diogelu ar gyfer pob cwrdd lleol. Mae'r cyfarfod ardal yn ymwneud â gwaith addysg heddwch ar y cyd â Resolve Cymru mewn ysgolion lleol a fydd yn hyrwyddo datrys gwrthdaro. Mae yn yr arfaeth i ddangos y ffilm *Joyeux Noel* mewn ysgolion fel rhan o goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Yn ne Cymru, mae Claire wedi llwyddo i gael aelodau gweithredol, awyddus newydd i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifainc. Cynhaliwyd Addoli Pob Oed ym Mhenarth a Chaerdydd ac mae teuluoedd o Abertawe a Chaerdydd yn cyfarfod ym Mhenarth y mis hwn. Mae cwrdd Caerdydd newydd gynnal gweithdy llwyddiannus ar 'Fod yn barod am blant sy'n dod i'r cwrdd'. Aeth un Cyfaill ifanc ar fwrdd y Llong Hwyliau ym mis Ebrill ar gyfer antur pum noson a ddaeth i ben yn Lerpwl.

Cynhaliodd Cyfarfod Ardal De Cymru benwythnos preswyl yng Nghanolfan yr Arloeswyr ym mis Chwefror ac am y tro cyntaf, achlysur i bob oed ydoedd. Chwaraeodd y Cyfeillion Ifainc ran bwysig ym mywyd ysbrydol y penwythnos gan arwain epilog. Mae gan sawl cwrdd Gyrddau poblogaidd i Blant ac erbyn hyn mae Cyfeillion Ifainc yn mynychu ein holl gyfarfodydd ardal, gyda'u gweithgareddau eu hunain. Mae Gwersyll y Cyfarfod Ardal yn parhau i ddenu llawer o deuluoedd o ardal eang. Mae Sarah wedi bod yn brysur yn yr holl feysydd hyn ac erbyn hyn mae'r pwyllgor eisiau cael ei hysbysu am y newidiadau diweddaraf ym maes Diogelu.

Diolchwn i'n Heiriolwyr dros Waith â Phlant a Phobl Ifainc a'n swyddogion Diogelu am eu hymrwymiad parhaus i'r dasg. Diolchwn hefyd i Kate Binney am yr adroddiad hwn ac am y blynyddoedd lawer mae wedi eu gwasanaethu fel cynorthwyydd i'r Eiriolwyr dros Waith â Phlant a Phobl Ifainc.

2014.24 *Tua'r Tarddiad*

Mae Catherine James wedi sôn wrthon ni am gynnydd *Tua'r Tarddiad*. Mae'r llyfrau mewn llyfrgelloedd ac ysgolion uwchradd ledled Cymru. Mae'r gwerthiant yn dda ond Crynwyr sy'n darllen y llyfrau'n bennaf. Rhaid i ni feddwl am ymestyn allan er mwyn cyrraedd ystod ehangach o ddarllenwyr. Bydd gweithdy yng Nghynulliad y Cyfarfod Blynyddol yng Nghaerfaddon a gwerthfawrogir unrhyw help. Cysylltwch â Catherine os byddwch yn y Cyfarfod Blynyddol ac yn gallu helpu. Hefyd, gofynnir i Gyfeillion a allant osod copïau mewn siopau llyfrau lleol – unwaith eto, cysylltwch â Catherine os gallwch wneud hyn.

2014.25 *Uwchgynhadledd NATO yng Nghymru*

Mae Aled Edwards, Cytûn, wedi anfon ymlaen at Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru gais gan Adam Johannes, Ysgrifennydd Clymblaid Stopiwch y Rhyfel Caerdydd ac aelod o bwyllgor Grŵp *No NATO* Casnewydd. Mae Grŵp *No NATO* Casnewydd yn gobeithio y bydd eglwysi yn Cytûn yn llofnodi'r llythyr. Mae'r cais hwn wedi'i anfon at holl gyfarfodydd/cyrddau'r Crynwyr yng Nghymru.

Teimlai Cwrdd Aberystwyth fod y datganiad hwn o'r grŵp yng Nghasnewydd ar wasgar braidd a heb gyfeiriad pendant, ac nad oeddent am i ni lofnodi'r llythyr ond eu gobaith oedd y *'daw datganiad o brotest o Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru'.* Ni allai Cwrdd yr Wyddgrug gefnogi'r datganiad chwaith ond roeddent yn cytuno mai gelyn y tlawd yw rhyfel, ond fe wnaethon awgrymu y dylai'r datganiad ddweud yn hytrach mai gelyn holl ddynolryw yw rhyfel, gan gynnwys y rheini sy'n ei gychwyn. Teimlant fod tlodi yng ngwledydd Prydain wedi codi o gamreoli adnoddau gan sefydliadau ariannol ac maent yn gorffen drwy ddweud '*Rydym yn ymwybodol o'r cyngor i 'beidio â gadael i rym eich argyhoeddiadau'ch bradychu i wneud datganiadau neu honiadau sy'n annheg neu sydd ddim yn wir.'*

Rydym yn anghyfforddus ag iaith y datganiad, ac yn penderfynu yn erbyn ei lofnodi. Rydym yn gofyn i'n clerc gyfleu ein rhesymau i Aled Edwards ac Adam Johannes.
Rhaid i ni wneud ein datganiadau ein hunain sy'n dweud beth yw pwrpas Crynwriaeth. Dylem hefyd ystyried sut fath o bresenoldeb ddylai fod gennym yn y digwyddiad hwn. Dros heddwch y saif y Crynwyr ac mae gwylnosau heddwch yn ffordd dda o wneud ein barn yn hysbys.

2014.26 *Gwasanaeth Coffa Cenedlaethol 4 Awst / Gwylnos Goffa 12–13 Medi*

Mae nifer o Gyfeillion yng Nghymru wedi derbyn gwahoddiad i fynychu'r Gwasanaeth Coffa Cenedlaethol yng Nghadeirlan Llandaf yng Nghaerdydd ar 4 Awst. Rydym wedi clywed gwahanol safbwyntiau am y mater hwn. Os ydym yn teimlo'n anghyfforddus am fod yno, ni ddylem fynd – ond efallai y dylem fynd oherwydd ein bod yn teimlo'n anghyfforddus.

Teimlwn ei bod yn iawn i ni fod â phresenoldeb yn y gwasanaeth hwn. Mae Maryse Newham wedi cynnig gwneud hyn ar ein rhan a diolchwn iddi amdano. **Gobeithiwn y bydd Maryse yn cael ei chefnogi gennym i gyd ac yn arbennig gan Gyfeillion Pen-y-bont ar Ogwr.**

Bydd Cymdeithas y Cymod yn cynnal Gwylnos Goffa Genedlaethol (ac edifeirwch) ar 12-13 Medi gan wahodd cynifer o bobl ag y bo modd. Bydd yn digwydd ar Faes Awyr Llanbedr ger Harlech.

2014.27 *Materion y Trysorydd*

Rydym wedi clywed adroddiad gan ein Trysorydd am y sefyllfa ariannol ar ddiwedd chwe mis cyntaf eleni. Gosodwyd y gyllideb ar gyfer y flwyddyn yn dynn iawn gan fod ein cronfeydd wrth gefn wedi gostwng yn sgil trosglwyddo cyllid i gefnogi prosiect Lleisiau Cydwybod.

Mae'r canlyniadau ar gyfer y chwe mis cyntaf yn foddhaol i'r graddau ein bod wedi cadw gwariant o fewn y gyllideb hyd yn hyn. Ar ben hynny, a phrosiect llyfrau JRCT wedi dod i ben, braf o beth yw bod gwariant yn cael ei gadw o fewn y gyllideb wreiddiol a bod gwerthiant llyfrau'n mynd yn dda gan greu incwm o dros £2,000 hyd yn hyn, gyda gwerthiant pellach yn cael ei ragweld yng Nghynulliad y Cyfarfod Blynyddol yng Nghaerfaddon a'r Eisteddfod Genedlaethol yn Llanelli ym mis Awst. Mae'r swm wrth gefn o £1,000 ar gyfer y prosiect hwn heb gael ei wario eto.

Fodd bynnag, mae wedi dod yn fater o frys i ddatrys problem gyda chyfrifiadur ein swyddog gweinyddol sydd wedi cyrraedd diwedd ei oes i bob pwrpas. Mae'r broblem hon wedi golygu oedi wrth ddiweddaru ein gwefan ddwyieithog, sy'n gysylltiedig â'r strategaeth ymestyn allan y mae cyhoeddi llyfrau'n rhan ohoni.

Yng ngoleuni'r ffaith bod y swm a neilltuwyd i'r wefan yn aros heb ei wario yng nghyllideb 2014 wrth gyrraedd yr hanner blwyddyn a bod cyllid ychwanegol ar gael gan y prosiect llyfrau, mae'r ymddiriedolwyr wedi argymell bod y gyllideb yn cael ei haddasu i ddarparu ar gyfer cyfrifiadur newydd. Rydym yn derbyn yr argymhelliad.

2014.28 *Ystyried y posibilrwydd o adolygu Qf&p – beth yw ystyr bod yn Grynwr yng Nghymru heddiw*

Mae Frances Voelcker wedi ein tywys ar daith wrth drafod diwylliant a lle, gan ddilyn tri darlleniad o *Tua'r Tarddiad.* Beth sy'n bwysig i ni am fyw yng Nghymru? Buon ni'n rhannu mewn grwpiau – atodir canlyniadau'r hyn a rannwyd gennym.

Pe bai'r Cyfarfod Blynyddol yn penderfynu adolygu'r Llyfrau Disgyblaeth, byddem yn gobeithio y dylai rhai o'r rhinweddau sydd wedi dod i'r fei wrth baratoi *Tua'r Tarddiad* gael eu cynnwys yn *Quaker Faith & Practice.* Gallai hyn hefyd fod yn ysgogiad i gynnwys cyfraniadau mewn ieithoedd a chan grwpiau eraill.

2014.29 *Sioe Frenhinol Cymru 2014*

Bydd John a Bridget Senior yn y Sioe Frenhinol eleni. Efallai y bydd angen cael hyd i help ar fyr rybudd.

Yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanelli

Bydd presenoldeb y Cyfeillion yn Eisteddfod 2014 yn Llanelli'n cael ei gydlynu gan John Lewis a Carey Thomas. Y Cyfeillion fydd yn gyfrifol am y Gornel Dawel. Cynhelir sesiwn fyfyrio dros heddwch ddydd Sul 3 Awst gyda darlleniadau o DVD prosiect Lleisiau Cydwybod. Ar ddydd Hiroshima (ddydd Mercher 6 Awst), bydd trafodaeth ar ryfel a heddwch a gydlynir gan Emyr Gwyn Evans.

Rydym yn cytuno i dalu £95 am docyn ail gydlynydd.

Anogir Cyfeillion i lofnodi rota'r gwirfoddolwyr ar gyfer Pabell Eglwysi Ynghyd a/neu gysylltu â John neu Carey os ydynt yn barod i helpu.

Mater o bryder i ni yw'r ffaith bod Cynulliad y Cyfarfod Blynyddol yn cyd-ddigwydd â'r Eisteddfod unwaith eto. Byddwn yn rhoi hyn ar agenda ein cyfarfod ym mis Hydref ac o'r cyfarfod hwnnw anfonwn gofnod i'r Cyfarfod Dioddefiadau.

2014.30 ***Adroddiad o CCB Cytûn***

Bu ein cynrychiolwyr Rohan Lewis a Millie Stein yn cael bod y cyfarfod yn groesawus iawn.

Braf oedd clywed mai Dinas Noddfa yw Caerdydd bellach ac y bydd Cynllun Gweithredu Twristiaeth Ffydd yn gofalu am y 3.5 miliwn o dwristiaid sy'n ymweld â mannau addoli yng Nghymru. Mae hefyd yn galonogol bod 52 y cant o eglwysi bellach yn agored i'r cyhoedd. Yn anffodus, mae'r Oleulong ym Mae Caerdydd a Christnogion yn erbyn Arteithio yn mynd i gau oherwydd diffyg arian.

Roedd materion busnes eraill yn cynnwys llwyddiant ymgyrch 'Os', gwaith yn El Salvador, Colombia, De Swdan ac Irac a help i'r bobl a gollodd eu cartrefi yn sgil y teiffŵn ym mis Tachwedd 2013 yn y Pilipinas (Ynysoedd Philippines) a laddodd 5000 o bobl. Wythnos Cymorth Cristnogol yw'r brif ffynhonnell incwm i'r gwaith hwn. Rydym yn diolch i Rohan am yr adroddiad hwn.

2014.31 ***Dyddiadau ar gyfer 2015/2016***

Ffont trwm = wedi'i gadarnhau *Italig* = i'w gadarnhau

21 Chwefror 2015 yn *Nolgellau* – Siaradwr **Ben Pink Dandelion**

27 Mehefin 2015 yn *Llanbedr Pont Steffan*

24 Hydref 2015 yn *y Trallwng*

27 Chwefror 2016 *Machynlleth*

25 Mehefin 2016 *Pales*

22 Hydref 2016 *Llanidloes*
Siaradwyr posibl yn y dyfodol – Cyngor Materion Ewropeaidd y Crynwyr

Rydym yn cadarnhau mai ar 25 Hydref yn Aberystwyth y bydd cyfarfod mis Hydref 2014 – Siaradwr Gerald Hewitson.

2014.32 ***Enwebiadau a Phenodiadau***

Penodiadau Rhwng Cyfarfodydd

Penodwyd Christine Trevett i fynychu Cynulliad Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr 26 Mehefin 2014.

Ceisir enwebiadau ar gyfer y tair blynedd nesaf
Cyd-glerc hyd at fis Rhagfyr 2016
Un aelod o'r pwyllgor trefniadau o fis Ionawr 2015 tan fis Rhagfyr 2017
Golygydd Calon o fis Ionawr 2015 tan fis Rhagfyr 2017

I wasanaethu o fis Ionawr 2015 tan fis Rhagfyr 2015
Clerc cynorthwyol

Yn sgil Cofnod 2013.16
Mae'r Pwyllgor Enwebiadau wedi dwyn enwau'r Cyfeillion canlynol gerbron i wasanaethu yn y Grŵp Prosiectau
hyd at fis Rhagfyr 2015: Roger Holloway, Ros Morley
hyd at fis Rhagfyr 2016: Rhian Parry.
A bwrw bod yr enwau hyn yn dderbyniol, fe'u penodir.

Mae'r Pwyllgor Enwebiadau wedi dwyn gerbron enw Chris Holmquist i wasanaethu fel cynorthwyydd i'r Pwyllgor Eirioli dros Waith â Phlant a Phobl Ifainc. Bydd y clerc yn anfon yr enw hwn at Adran Plant a Phobl Ifainc ***Friends House*****.**

Ros Morley (clerc) Jenny Sen (clerc cynorthwyol)